Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ymrwymiad 4: blaenoriaethu diwylliant o ddysgu a datblygu'n barhaus

Cyngor ac adnoddau er mwyn blaenoriaethu diwylliant o ddatblygu

a dysgu’n barhaus.

Cyhoeddwyd gyntaf: 12 June 2023
Diweddariad olaf: 9 November 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf. Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/adnoddau-iechyd-a-llesiant/mae-eich-llesiant-yn-bwysig-fframwaith-iechyd-a-llesiant-y-gweithlu/ymrwymiad-4-blaenoriaethu-diwylliant-o-ddysgu-a-datblygun-barhaus am y fersiwn diweddaraf.

Mae’r adran hon yn gysylltiedig â’r canlynol:

- Y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol, adrannau 1.4, 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5
- Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol 6.7, 7.3

Gall teimlo’n fodlon yn ein gwaith wella ein llesiant.

Rydyn ni’n cydnabod bod gweithio ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn waith medrus.

Mae ar ein gweithlu angen cael ei gefnogi er mwyn iddo ddysgu, tyfu a theimlo’n hyderus ac yn gymwys yn y gwaith y mae’n ei wneud.

Mae pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Gallwn greu amgylcheddau dysgu cadarnhaol lle y mae staff yn cael eu meithrin, gan deimlo bod ganddynt bwrpas a’u bod yn perthyn.

I greu diwylliant o ddysgu a datblygu, mae angen ymrwymiad cadarn gan arweinwyr.

Mae arweinwyr yn modelu dysgu drwy fynd i sesiynau hyfforddi a myfyrio eu hunain.

Ceir cysylltiad clir rhwng dysgu a datblygu ar y naill law a gwerthoedd y sefydliad ac ansawdd y gofal ar y llaw arall. Mae rheolwyr yn mynd ati i annog chwilfrydedd, gwelliant, a dysgu ar y cyd.

Fel gweithlu cofrestredig, mae’n bwysig ein bod ni’n cynorthwyo staff i gael eu hyfforddi ac yn darparu cyfleoedd iddyn nhw barhau i ddatblygu’n broffesiynol.

Sut olwg sydd ar hyn?

Mewn sefydliad, mae hyn yn golygu ein bod:

- yn creu gweithle sy’n ysbrydoli, lle’r ydym yn dathlu’r hyn yr ydym yn ei wneud yn dda
- yn meithrin diwylliant o gynllunio ar gyfer dysgu a datblygu’n barhaus
- yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol, lle y gall staff ddysgu oddi wrth ei gilydd
- yn blaenoriaethu amser a lle i fyfyrio, i ddysgu, i dyfu ac i addasu i newid
- yn darparu hyfforddiant i staff o’r dechrau’n deg er mwyn iddynt wneud eu gwaith yn ddigonol ac yn briodol, gan gynnwys hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr
- yn cynorthwyo staff a rheolwyr pan fyddant yn symud i swyddi newydd, gan gynnwys symud i swyddi rheoli
- yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu a datblygu priodol
- yn hybu cyfle cyfartal i bobl sydd eisiau camu ymlaen
- yn cynorthwyo ac yn hyfforddi pobl er mwyn iddynt gamu ymlaen
- yn cefnogi cymwysterau, prentisiaethau, a llwybrau i gamu ymlaen mewn gyrfa.

Ble allaf fi weld esiamplau?

Beth y gallwch chi ei wneud

Ar gyfer sefydliadau

Dangos

- Gwneud dysgu’n rhan o arferion gweithio bob dydd.

• Cryfhau dulliau o ymgymryd ag ymarfer myfyriol drwy flaenoriaethu amser a gofod i drafod effaith emosiynol, dilemâu moesegol, a diogelu.

• Annog cyfleoedd i ddysgu gan gymheiriaid ac i rannu gwybodaeth.

• Gwneud dysgu'n amlwg a rhoi gwerth arno.

• Gwneud yn siŵr bod staff yn cael hyfforddiant priodol.

• Cynorthwyo pobl i symud i swyddi newydd, gan gynnwys rheolwyr newydd.

• Darparu gwahanol gyfleoedd dysgu i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu a datblygu.

Ar gyfer rheolwyr

Dangos

• Ysbrydoli pobl eraill i ddysgu drwy ymdrechu i ddysgu ac i ddatblygu fy hun.

• Gwneud yn siŵr bod fy sgiliau a'm gwybodaeath yn gyfredol ac yn berthnasol.

• Annog pobl eraill i ddysgu ac i ddatblygu, a neilltuo amser iddynt wneud hyn.

• Defnyddio sesiynau goruchwylio rheolaidd i fyfyrio ar ymarfer, heriau, a'r hyn y mae angen inni ei ddysgu.

• Rhannu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu o archwiliadau, arolygiadau, cwynion, a chanmoliaeth.

• Annog trafodaethau myfyriol ar ôl digwyddiadau neu achosion cymhleth.

• Annog pobl a reolir gennyf i ddysgu o gamgymeriadau, yn hytrach na beio neb.

Ar gyfer pawb

Dangos

• Achub ar gyfleoedd i ddysgu pan allaf i.

• Rhannu'r hyn yr wyf wedi'i ddysgu â phobl eraill yn fy nhîm neu sefydliad.

• Gwybod beth y mae angen imi ei wneud i barhau i fod yn gymwys ac yn wybodus.

• Gofyn am amser i ddysgu ac i ddatblygu.

• Defnyddio astudiaethau achos ac enghreifftiau o fywyd go iawn i wella fy ymarfer.

• Rhannu arferion da a syniadau arloesol.

Adnoddau a chymorth

Mae'n bosib na fyddai rhai adnoddau allanol yn hygyrch neu ar gael yn ddwyieithog. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am adnoddau allanol.

- **Dysgu a datblygu i gefnogi cadw'r gweithlu gofal cymdeithasol – Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Gwybodaeth ac adnoddau am ddulliau dysgu a datblygu effeithiol i gynorthwyo i gadw staff.

- **Fframweithiau sefydlu – Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Fframweithiau sefydlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, rheolwyr gofal cymdeithasol, a gweithwyr a rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

- **Y pum ffordd o weithio – DEEP Cymru**
  Mae'n eich helpu i greu amgylchedd dysgu gwell.

- **Fframwaith SENSES – MyHomeLife**
  Mae’n helpu i feithrin amgylcheddau dysgu cadarnhaol.